# P-04-428 : Ynni amgen ar gyfer goleuadau stryd

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid ffynhonnell ynni goleuadau stryd ar gefnffyrdd yng Nghymru ac i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol yn gofyn bod goleuadau stryd lleol yn cael eu newid fel eu bod yn defnyddio ynni amgen.

Gwybodaeth Ategol : Mae Llywodraeth Cymru'n honni ei bod yn gweithio yn ôl Agenda 21, sef lleihau llygredd drwy leihau'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio.  Yn ystod y nos, mae goleuadau stryd yn golygu bod yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yn cyrraedd uchafswm.  Felly, credaf y dylai'r Llywodraeth newid ffynhonnell ynni goleuadau stryd yn y wlad. Er enghraifft, mae ynni solar ac ynni gwynt yn cael eu defnyddio yn barod ar gyfer rhai arwyddion stryd, a byddai newid yr holl oleuadau stryd yn cynnig cyfleoedd gwaith eang a chynaliadwy i filoedd.  Byddai'r darparwyr trydan wedyn yn gallu gostwng eu prisiau i'r defnyddwyr a'r awdurdodau lleol..

Prif ddeisebydd:  Ethan Gwyn

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:  16 Hydref 2012

Nifer y llofnodion:  22